OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2015 Rhif 1950 (Cy. 295)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Bethesda, Gwynedd) (Gwahardd Aros a Chyfyngu ar Aros) 2013 (Amrywio) 2015

*Gwnaed* *30 Tachwedd 2015*

*Yn dod i rym* *01 Rhagfyr 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, fel yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Llundain i Gaergybi (yr A5) ("y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2), 4(2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) ("Deddf 1984") a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, a phob pŵer galluogi arall, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf 1984, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:-

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 01 Rhagfyr 2015. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Bethesda, Gwynedd) (Gwahardd Aros a Chyfyngu ar Aros) 2013 (Amrywio) 2015.

**Amrywio**

**2.** Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Bethesda, Gwynedd) (Gwahardd Aros a Chyfyngu ar Aros) 2013 drwy hyn wedi ei amrywio a bydd yn effeithiol fel a ganlyn:-

(i) Ar ôl erthygl 5, mewnosoder—

"5A. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 6(3), ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4".

(ii) Ar ôl erthygl 6(2), mewnosoder—:

“(3) Ni fydd dim yn erthygl 5A yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darn o’r gefnffordd y cyfeirir ati yn yr erthygl honno cyhyd ag y bo’n angenrheidiol mewn cysylltiad â’r gweithrediadau a’r dyletswyddau a bennir yn erthyglau 6(1)(c), 6(1)(d), 6(1)(f) a 6(1)(g).”

(iii) Yn lle pennawd Atodlen 1 rhodder, “Gwahardd aros ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 6(1)”.

(iv) Yn Atodlen 3, paragraff 3, llinell 5, yn lle “20 o fetrau” rhodder “26 o fetrau”.

(v) Ar ôl Atodlen 3, mewnosoder—

“**ATODLEN 4**

**Gwahardd aros ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 6(3)**
**(Y Tu Allan i Orsaf Heddlu Bethesda)**

**1**. Y darn hwnnw o ochr deheuol y gefnffordd a elwir Stryd Fawr Bethesda sy’n ymestyn o bwynt 20 o fetrau i’r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Stryd Glanafon hyd at bwynt 26 o fetrau i’r gogledd-orllewin o’r gyffordd honno y tu allan i’r eiddo a elwir Gorsaf Heddlu Bethesda.”

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 30 Tachwedd 2015

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae’r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.